




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion

Llyfryn i'ch helpu i feddwl am eich cyfarfod



Canllawiau

Dogfen wybodaeth: rhif 183/2015

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion

- Cynulleidfa** Unrhyw ddysgwr sy'n cymryd rhan mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi templed i ddysgwr ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Camau i'w cymryd** Ystyried defnyddio'r templed hwn i baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5789
e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
- Dogfennau perthnasol** *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion*
<http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviewstoolkit/?lang=cy>
- Atgynhychwyd delweddau gyda chaniatâd Julie Barclay.

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion – beth ydyn nhw?

Caiff y cyfarfod yma ei alw yn 'gyfarfod canolbwyntio ar unigolyn' gan mai chi fydd yn ei ganol.

Mae perthnasau, eich ysgol neu'r coleg ac efallai bobl eraill rydych yn eu hadnabod eisiau siarad am sut i'ch helpu chi.

Byddant eisiau gwybod beth sy'n bwysig i chi nawr yn eich bywyd a beth rydych eisiau ei wneud yn y dyfodol.

Dyma'ch cyfle i ddweud wrth bawb am y pethau sy'n mynd yn dda i chi, yn ogystal â phethau rydych eisiau iddyn nhw newid.

Pwy fydd yno?

Chi yw'r person pwysicaf, felly mae angen i chi fod yno.

Efallai y byddwch eisiau gwahodd rhai pobl yr ydych yn teimlo'n gyfforddus gyda nhw a phobl sy'n eich helpu.

Efallai bod angen gwahodd pobl eraill hefyd, er enghraifft, bobl o'r bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol nad ydych yn eu hadnabod efallai, neu efallai nad ydych eisiau iddynt fod yno, ond y bydd angen iddynt fod yno i adael i chi a phawb arall wybod beth y gellir ei wneud i'ch helpu.

Pryd a ble y bydd y cyfarfod?

Mae eich adolygiad yn debyg o fod yn eich ysgol neu'r coleg.

Efallai y byddwch yn ddigon lwcus i gael dewis eich hoff ystafell ond mae hyn yn anodd weithiau mewn lle prysur, felly efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio unrhyw ystafell sydd ar gael.

Bydd y person sy'n eich helpu i drefnu eich adolygiad yn eich helpu i feddwl am ble y bydd hyn yn digwydd a beth fydd yn digwydd.

Ar ddiwedd yr adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad bydd pawb wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu.

Mae'r Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau y gall pawb weld beth fydd yn cael ei wneud i'ch helpu i ddysgu a chyflawni eich breuddwydion.

Bydd popeth yn y Cynllun Gweithredu wedi ei drafod yn y cyfarfod, yn cynnwys eich sylwadau a'ch syniadau chi.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn dweud:

- pa help y byddwch ei angen i ddysgu a datblygu
- pwy sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr eich bod yn cael yr help rydych ei angen
- pryd a lle y byddwch yn cael yr help yma
- sut y byddwn yn gwybod os yw'r help a gawsoch wedi gweithio i chi.

Ar ôl y cyfarfod cewch gyfle i ddarllen y Cynllun Gweithredu a meddwl am beth a gytunwyd a thrafod hynny gyda'ch teulu neu ffrindiau.

Beth sydd angen i chi feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Mae'r llyfryn yma i'ch helpu i feddwl am yr hyn rydych eisiau ei ddweud yn eich adolygiad canolbwyntio ar unigolyn a sut rydych eisiau dweud hynny. Unwaith y byddwch wedi cytuno pryd fydd y cyfarfod, a phwy fydd yn dod, mae angen i chi feddwl sut ydych chi eisiau cymryd rhan. Dyma rai pethau i feddwl amdanynt.


Ydych chi eisiau i helpu i baratoi'r ystafell?

Ydych chi eisiau bod yn yr ystafell yn gyntaf neu ydych chi eisiau mynd i mewn i'r ystafell ar ôl i'r bobl eraill gyrraedd?

Ydych chi eisiau unrhyw gerddoriaeth i gael ei chwarae yn ystod yr adolygiad?

Sut fyddech chi'n hoffi dweud wrth bawb beth yr ydych wedi bod yn ei wneud? Dyma rai syniadau.

- Siarad gyda nhw.
- Creu cyflwyniad PowerPoint y gallant edrych arno heb fod angen i chi ddweud unrhywbeth.
- Creu cyflwyniad PowerPoint a siarad gyda nhw am y cyflwyniad.
- Creu llyfr lloffion.
- Defnyddio tabled neu liniadur, e.e. iBook.
- Argraffu lluniau fel y gallwch eu dangos yn ystod y cyfarfod.
- Cael datganiadau wedi'u hysgrifennu ar gardiau i chi eu dangos yn ystod y cyfarfod.
- Ysgrifennu beth fuoch yn ei wneud cyn yr adolygiad.
- Ysgrifennu beth ydych chi eisiau ar yr un amser â phawb arall.
- Defnyddio symbolau i esbonio beth ydych ei eisiau a sut ydych yn teimlo.
- Cael rhywun gyda chi fydd yn eich helpu chi yn unig.




Fyddech chi'n hoffi i bawb yn y cyfarfod wybod unrhyw beth am sut ydych yn hoffi cyfathrebu?

Sut fyddech chi'n hoffi cymryd rhan mewn penderfyniadau?


Ydych chi eisiau cael rhywun arall gyda chi rhag ofn eich bod eisiau gwneud rhywbeth arall/dim eisiau cymryd rhan yn y cyfarfod am dipyn?

Os ydych yn teimlo eich bod eisiau gadael yr ystafell, sut fyddwch chi eisiau gwneud hyn a phwy fydd yn eich helpu?


**Beth mae pobl eraill yn ddweud eu bod yn ei hoffi,
edmygu neu werthfawrogi amdanoch chi?**

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for a person to write their response to the question above. The box is oriented vertically and occupies most of the page's width and a significant portion of its height.


Beth sydd wedi digwydd ers eich adolygiad diwethaf?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth yw eich gobeithion a'ch breuddwydion ar gyfer y dyfodol?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their answers to the question above. It occupies most of the page's vertical space.


Beth yw'r pethau sy'n bwysig i chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their answers to the question above.


Beth ydych chi'n feddwl sy'n bwysig i chi i'ch helpu i ddysgu neu i'ch cadw yn iach a diogel?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth ydych chi eisiau i bobl eraill ei wybod neu ei wneud i'ch helpu chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth sy'n mynd yn wirioneddol dda i chi ar hyn o bryd?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.

Beth sydd ddim yn mynd cystal i chi ar hyn o bryd?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.

Fyddech chi'n hoffi gofyn unrhyw gwestiynau?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their questions or answers.